OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 764

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

## RHAN 5

Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

**Cyflwyniad**

**18.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

**Diwygiad i reoliad 2**

**19.** Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) o dan baragraff 9.1 (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin), 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin) neu 27.1 (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin) o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo; neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022; a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022;".

**Diwygiad i reoliad 4**

**20.** Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl "4ZB," mewnosoder "4ZC,";

(b) ar ôl paragraff (10E) mewnosoder—

"(10F) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A" yn y paragraff hwn), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir—

(i) yn fyfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynt o'r cwrs presennol, mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs y mae'r cwrs presennol yn gwrs penben mewn perthynas ag ef, neu'n gais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21); y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2021/1365 (Cy. 360).

neu gwrs dynodedig arall y mae statws A fel myfyriwr rhan-amser cymwys neu fyfyriwr cymwys wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i'r cwrs presennol; neu

(ii) yn fyfyriwr cymhwysol mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer blwyddyn gynt o'r cwrs cymhwysol neu o gwrs cymhwysol arall y mae statws A fel myfyriwr cymhwysol wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i'r cwrs cymhwysol y mae'r myfyriwr yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas ag ef; a

(b) ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi terfynu, ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi,

bydd statws A fel myfyriwr cymwys neu fyfyriwr cymhwysol yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi."

**Diwygiad i reoliad 15**

**21.** Yn rheoliad 15, ar ôl paragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Diwygiad i reoliad 23**

**22.** Yn rheoliad 23—

(a) ym mharagraff (12), ar ôl is-baragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;";

(b) hepgorer paragraff (17).

**Diwygiad i reoliad 26**

**23.** Yn rheoliad 26(1), ar ôl "ar gwrs dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Diwygiad i reoliad 27**

**24.** Yn rheoliad 27(1), ar ôl "ar gwrs dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Diwygiad i reoliad 28**

**25.** Yn rheoliad 28(1), ar ôl "ar gwrs dynodedig" mewnosoder "neu mewn cysylltiad â chwrs dynodedig y mae'n ymgymryd ag ef".

**Diwygiad i reoliad 49**

**26.** Yn rheoliad 49(2), ar ôl is-baragraff (bb) mewnosoder—

"(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Diwygiad i reoliadau 81 a 82**

**27.** Yn rheoliad 81—

(a) ym mharagraff (2)(a), ar ôl “4ZB,” mewnosoder “4ZC,”;

(b) ar ôl paragraff (10E) mewnosoder—

“(10F) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A” yn y paragraff hwn), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyriwr rhan-amser cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth am flwyddyn gynharach o’r cwrs rhan-amser presennol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs dynodedig neu gwrs rhan-amser dynodedig arall y mae statws A fel myfyriwr rhan-amser cymwys neu fyfyriwr cymwys wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i’r cwrs rhan-amser presennol; a

(b) ar y diwrnod cyn dechrau’r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi dod i ben ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi,

bydd statws A fel myfyriwr rhan-amser cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi.”

**28.** Yn rheoliad 82(4), ar ôl is-baragraff (bb) mewnosoder—

“(bc) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;”.

**Diwygiad i reoliad 91**

**29.** Yn rheoliad 91(1), ar ôl “ar gwrs rhan-amser dynodedig” mewnosoder “neu mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig y mae’n ymgymryd ag ef”.

**Diwygiad i reoliad 92**

**30.** Yn rheoliad 92(1), ar ôl “ar gwrs rhan-amser dynodedig” mewnosoder “neu mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig y mae’n ymgymryd ag ef”.

**Diwygiad i reoliad 93**

**31.** Yn rheoliad 93(1), ar ôl “ar gwrs rhan-amser dynodedig” mewnosoder “neu mewn cysylltiad â chwrs rhan-amser dynodedig y mae’n ymgymryd ag ef”.

**Diwygiad i reoliadau 110 a 111**

**32.** Yn rheoliad 110—

(a) ym mharagraff (3)(a)(i), ar ôl “4ZB,” mewnosoder “4ZC,”;

(b) ar ôl paragraff (12E) mewnosoder—

“(12F) Os bydd—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person (“A” yn y paragraff hwn), yn rhinwedd bod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth am flwyddyn gynharach o’r cwrs ôl-radd presennol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth mewn cysylltiad â chwrs ôl-radd dynodedig arall y mae statws A fel myfyriwr ôl-radd cymwys wedi ei drosglwyddo oddi wrtho i’r cwrs ôl-radd presennol; a

(b) ar y diwrnod cyn dechrau’r flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, y cyfnod y caniateir i A aros yn y Deyrnas Unedig

fel gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir wedi dod i ben ac nad oes unrhyw hawl bellach i ddod i mewn neu i aros wedi ei rhoi,

bydd statws A fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn terfynu yn union cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi."

**33.** Ar ôl rheoliad 111(2)(bb) mewnosoder—

"(bc) y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".

**Diwygiad i Atodlen 1**

**34.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 4ZB mewnosoder—

"**Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir**

**4ZC.** Person—

(a) sy'n wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir; ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs."

**Diwygiad i Atodlen 4**

**35.** Yn Atodlen 4, paragraff 6, ar ôl is-baragraff (ab) mewnosoder—

"(ac) bod y myfyriwr yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;".